



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Ardaloedd chwarae meddal i blant ac ardaloedd chwarae dan do: cerdyn gweithredu (coronafeirws)

Canllawiau i helpu darparwyr gofal plant i ddiogelu plant, staff ac ymwelwyr.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Medi 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Beth yw hwn?

Y Cyd-destun

Risgiau penodol yn y lleoliadau hyn

Pa gamau rhesymol y dylwn i ystyried eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws?

Cyfathrebu

Dolenni at ganllawiau allweddol

Beth yw hwn?

- Mae'r "Cerdyn Gweithredu" hwn yn rhoi cyngor ar fesurau sy'n debygol o fod yn rhesymol i'w cymryd i leihau'r risg o'r coronafeirws mewn ardaloedd chwarae meddal i blant ac ardaloedd chwarae dan do
- Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â **rheoliadau** cyfredol Llywodraeth Cymru a **chanllawiau eraill (mwy cyffredinol)**

Y Cyd-destun

- Mae'r Cerdyn Gweithredu hwn yn ymwneud â'r mesurau y mae rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am ardaloedd chwarae meddal i blant ac ardaloedd chwarae dan do eu cymryd, yn ôl y gyfraith, mewn ymateb i bandemig y coronafeirws

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Gellir adnabod y cyfleusterau hyn fel meysydd chwarae dan do, canolfannau chwarae dan do neu ganolfannau chwarae meddal. Yn ogystal â'r meysydd penodol sy wedi'u creu at bwrpasau chwarae dan do, gellir cyfleusterau fel hyn hefyd gael eu lleoli mewn ystod o adeiladau a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan rieni, gan gynnwys tafarndai, canolfannau siopa a rhai o'r atyniadau i dwristiaid sy'n fwy o faint
- Y rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn gymryd **mesurau rhesymol** i leihau'r risg y bydd pobl yn dod i gysylltiad â'r feirws a'i ledaenu
- Wrth wneud y penderfyniad ynghylch pa fesurau y dylid eu rhoi ar waith, rhaid iddynt hefyd gynnwys **asesiad penodol o'r risg** y mae'r coronafeirws yn ei hachosi
- Mae'r Cerdyn Gweithredu yn amlygu risgiau sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â'r lleoliadau hyn, ac yn ystyried pa fesurau rhesymol y gellid eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hynny
- Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac mae'n bosibl y bydd yn briodol rhoi mesurau rhesymol eraill ar waith na chyfeirir atynt isod
- Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, gofynnwch am gyngor gan adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd. Dylech gofio a pharchu mai eu rôl yw sicrhau bod mesurau rhesymol priodol yn cael eu rhoi ar waith fel y gall eich lleoliad weithredu mor ddiogel â phosibl. Fodd bynnag, nid eu rôl nhw yw cymeradwyo eich asesiad risg

Risgiau penodol yn y lleoliadau hyn

Er y bydd risgiau'n amrywio o leoliad i leoliad, ac yn dibynnu ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y lleoliad a nifer y bobl sy'n bresennol, bydd y risgiau canlynol yn risgiau cyffredin:

- Rhyngweithio'n agos yn gorfforol, gan gynnwys ciwio'n agos at eraill cyn mynd i mewn i'r lleoliad ac ynddo, er enghraifft, yn y dderbynfa, mewn lifftiau, toiledau, ystafelloedd cotiau neu wrth ddefnyddio offer chwarae neu mewn unrhyw safle lletygarwch ar y safle
- y posibilrwydd o awyru gwael, sy'n arbennig o broblemus pan fo pobl yn treulio cyfnodau hir gyda'i gilydd (dan do) ac yn cymysgu ag eraill yn y lleoliadau hyn, neu pan fo gweithgareddau gyda grwpiau penodol yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Erch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

digwydd mewn ystafelloedd llai (ee, dosbarthiadau rhieni a phlant bach)

- tebygolrwydd uwch o gymysgu a rhyngweithio wyneb yn wyneb, gan gynnwys wrth ddefnyddio offer chwarae neu mewn unrhyw safle lletygarwch ar y safle
- codi lleisiau dros gerddoriaeth uchel yn cynyddu'r risg o drosglwyddiad drwy aerosol

Pa gamau rhesymol y dylwn i ystyried eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws?

Er ei bod yn annhebygol y bydd modd dileu'r risgiau'n gyfan gwbl mewn mannau o'r fath, mae rhai mesurau'n rhesymol ac felly mae'n rhaid eu rhoi ar waith.

Dylech ystyried a fyddai'n rhesymol rhoi'r mesurau hyn ar waith. Dylai'r mesurau rydych yn eu rhoi ar waith gael eu llywio gan eich asesiad risg y bydd y coronafeirws cael ei ledaenu gan bobl sy'n defnyddio eich cerbydau neu eich safleoedd, a dylent gael eu teilwra i'ch amgylchiadau penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **templed safonol** ar gyfer asesiadau risg coronafeirws, ac mae rhagor o **wybodaeth** ar gael i'ch helpu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Lleihau'r siawns y bydd y coronafeirws yn bresennol

- Annog staff i dderbyn y ddau ddos o frechlyn COVID-19
- Annog staff i gymryd profion yn rheolaidd (lle'n ymarferol)
- Os yw aelod o staff, ymwelydd neu blentyn yn dechrau teimlo'n sâl neu'n dangos symptomau tra eu bod nhw yn y lleoliad, dylen nhw adael yn syth a dilyn y cyngor Profi, Orlhain, Diogelu gan gynnwys hunan-ynysu a threfnu prawf.

Y ffordd orau o atal lledaeniad y coronafeirws mewn unrhyw safle yw lleihau'r risg y bydd y feirws ar y safle yn y lle cyntaf.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Atal gorlenwi

- Cyfyngu ar niferoedd neu reoli symudiadau pobl fel y gall cwsmeriaid gadw pellter oddi wrth eraill pan fo hynny'n bosibl. Er enghraifft, defnyddiwch systemau unffordd i gerdded o amgylch y safle a rheoli symudiadau pobl sy'n dod at ei gilydd mewn mannau cyfyng fel toiledau
- Mae cadw pellter corfforol rhwng unigolion a grwpiau yn parhau i fod yn fesur rheoli effeithiol mewn safleoedd pan fo gwahanol grwpiau o bobl yn cymysgu. Er y derbynnir yn gyffredinol nad yw plant ifanc iawn yn dda am gadw pellter, dylai oedolion barhau i geisio gwneud hynny, ac ni ddylid annog cymysgu ar draws grwpiau
- Rheoli mannau mynediad ac ymadael i atal pobl rhag dod at ei gilydd.
- Mabwysiadu system gwasanaeth bwrdd ar adegau prysur mewn bwytai a chaffis ar y safle

Cyfyngu ar eich capasiti

- Pan fo hyn yn bosibl yn economaidd, dylid lleihau nifer y bobl a ganiateir mewn unrhyw safle ar unrhyw un adeg. Bydd cyfyngu ar niferoedd yn lleihau faint o ryngweithio agos yn gorfforol sy'n digwydd, yn benodol drwy leihau'r potensial ar gyfer gorlenwi
- Dylech ystyried rhoi tocynnau ymlaen llaw, neu ystyried ffyrdd eraill o gyfyngu ar y niferoedd sy'n dod i mewn i'r safle ar yr un pryd
- Gwasgaru pobl ar draws y lleoliad fel nad ydynt yn ymgynnull mewn niferoedd anghymesur mewn un ystafell neu mewn un man

Gwella eich system awyru neu gynnal gweithgareddau yn yr awyr agored

- Annog defnydd o fannau awyr agored pan fo hynny'n bosibl. Rydym yn cydnabod nad oes gan bob canolfan chwarae meddal neu ganolfan chwarae fannau awyr agored, a bod defnyddio cyfleusterau dan do yn nodwedd o'r busnes

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Gwella llif aer drwy agor ffenestri a drysau mewnol (ond nid drysau tân) pan fo hynny'n bosibl ac yn ddiogel. Gan y bydd plant yn bresennol yn y safleoedd hyn, mae'n bosibl mewn rhai achosion y gallai agor ffenestri neu ddrysau gynyddu'r risg y bydd plant yn cael eu hanafu neu'n gadael y safle heb oruchwyliaeth, felly dylai hyn fod yn rhan o unrhyw asesiad risg
- Os oes diffyg awyru naturiol, sicrhau bod 100% o'r aer y mae systemau awyru mecanyddol yn ei ddarparu yn awyr iach, yn hytrach nag ailgylchdroi aer o un lle i'r llall.
- Sicrhau bod systemau awyru mecanyddol yn cael eu cynnal yn effeithiol a'u bod wedi'u trin
- Monitro lefelau CO2 i nodi mannau lle mae'r awyru yn wael

Cadw eich safle'n lân

- Lleihau nifer yr arwynebau a'r gwrthrychau y gall pobl eu cyffwrdd. Er enghraifft, cyfyngu ar gyswllt â bwydlenni, defnyddio apiau i archebu a thalu, defnyddio technoleg ddi-gyswllt
- Glanhau'n drwyadl ac yn rheolaidd, gan ddefnyddio diheintydd mewn mannau prysur ac ar eitemau y cyffyrddir â nhw yn aml fel topiau cownter, byrddau a dolenni drysau
- Gosod hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad, yn enwedig mewn mannau mynediad ac mewn mannau cyswllt eraill, a darparu peiriannau sebon awtomataidd a thywelion papur mewn ystafelloedd ymolchi

Gostwng y sŵn

- Lleihau sain unrhyw gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae i leihau'r angen i bobl weiddi neu ddod â'u hwynebau'n agos at ei gilydd i siarad

Gofalu am eich staff

- Gweithredu systemau i leihau'r cysylltiadau rhwng staff. Er enghraifft, amrywio amseroedd shifftiau staff, amseroedd egwyl a danfoniadau; nodi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

uchafswm a ganiateir mewn ceginau, ystafelloedd staff, ystafelloedd newid a manau fel ardaloedd ysmegu

- Darparu gorchuddion wyneb neu fath arall o gyfarpar diogelu personol i staff
- Codi sgriniau i ddiogelu staff, er enghraifft mewn unrhyw ardal sy'n gaffi neu mewn manau lle mae pobl yn talu
- Cynorthwyo (ac nid atal) aelodau o staff sydd â symptomau, sy'n derbyn canlyniad positif neu sydd wedi cael gwybod gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu i hunanynsu. Mae hunanynsu pan fydd person wedi cael canlyniad positif i brawf yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Cofio gorchuddion wyneb

- Helpu i sicrhau bod y bobl sy'n bresennol yn cydymffurfio â'u rhwymedigaeth gyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb.
- Os yw eich busnes yn amlbwrpas, gyda bwyd a diod yn un o'r rhesymau niferus dros ymweliadau (ee, atyniad dan do gyda chaffi), mae dal raid i staff a chwsmeriaid wisgo gorchuddion wyneb ym mhob rhan o'r busnes ar wahân i'r ardaloedd penodol lle mae bwyd a diod yn cael eu bwyta

Profi, Olrhain, Diogelu – cymorth

- Deall rôl system **Profi, Olrhain, Diogelu** GIG Cymru wrth fonitro a rheoli'r feirws
- **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr** i gefnogi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.

Cyfathrebu

Mae gennych rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth i'r bobl sy'n dod i'ch safle neu sy'n gweithio yno ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, gwybodaeth ar gyfer pawb sy'n bresennol am eu risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws fel y nodwyd yn yr asesiad risg a'r mesurau sydd i'w rhoi ar waith i leihau'r risg.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gallai hyn gynnwys cyhoeddiadau, arwyddion clir (gan gynnwys tâp llawr neu baent) yn nodi cyfyngiadau ar y nifer a ganiateir mewn ardal neu gerbyd penodol, systemau ciwio a systemau unffordd.

Dolenni at ganllawiau allweddol

[Canllawiau cyffredinol ar roi mesurau rhesymol ar waith i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws](#)

[Canllawiau hunanynysu](#)

Mae [Cymdeithas Parciau Hamdden, Pierau ac Atyniadau Prydain](#) wedi llunio canllawiau ar gyfer eu gweithrediad, a gellir dod o hyd iddynt ar eu gwefan.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Ardaloedd chwarae meddal i blant ac ardaloedd chwarae dan do: cerdyn gweithredu \(coronafeirws\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ardaloedd-chwarae-meddal-i-blant-ac-ardaloedd-chwarae-dan-do-cerdyn-gweithredu-coronafeirws-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).